



**Older People's Commissioner for Wales**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

## **Llywio'ch Ffordd trwy Wasanaethau Cymdeithasol**

---

**Daflen Ffeithiau 4: Aseu eich anghenion**



# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030  
E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)  
Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

# Asesu eich anghenion

Rhaid i Awdurdod Lleol gynnal asesiad o angen ar gyfer unrhyw un lle'r ymddengys bod angen gwasanaethau gofal a chymorth arnynt ac ar gyfer gofalwyr a all fod angen cymorth. (Nid oes trothwy o ran oriau gofal i fod yn gymwys i gael asesiad gofalwr). Wrth gwblhau eich asesiad, rhaid i'r Awdurdod Lleol roi pwyslais ar eich cryfderau a'ch galluogrwydd, a chanolbwyntio ar wasanaethau sy'n eich galluogi i wneud pethau drosoch eich hun yn hytrach na bod yn ddibynnol.

Rhaid i Awdurdod Lleol asesu eich angen am ofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr), os ydych chi'n byw yn ardal yr Awdurdod Lleol neu beidio.

Rhaid i'ch Awdurdod Lleol eich cynnwys pan fydd yn asesu eich anghenion am ofal a chymorth (neu gymorth os ydych chi'n ofalwr). Mae hyn yn golygu cynnwys eich gofalwr (os oes gennych un a'ch bod chi a'ch gofalwr yn hapus i wneud hynny).

Yn ystod yr asesiad o angen, rhaid i'r Awdurdod Lleol asesu'r canlyniadau yr hoffech eu cyflawni yn eich bywyd o ddydd i ddydd. Yn achos gofalwyr rhaid i'r Awdurdod Lleol hefyd asesu faint o ofal a ddarperir i'r unigolyn sydd angen gofal a chymorth ac a yw'r gofalwr yn barod i ddarparu'r gofal a chymorth hwnnw. Os bydd gofalwr yn penderfynu ar unrhyw adeg na fydd yn gallu (neu'n barod) i barhau i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ailasesu anghenion yr unigolyn a oedd yn cael y gofal a chymorth.

Rhaid iddynt wedyn asesu a fyddai'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA), gwasanaethau ataliol neu wasanaethau gofal a chymorth yn eich helpu i gyflawni'r canlyniadau. Rhaid i'r Awdurdod Lleol hefyd asesu a allai pethau eraill heblaw gofal a chymorth gan eich Awdurdod Lleol eich helpu i gyflawni eich canlyniadau (e.e. pethau fel help gan gymydog).

Yn ystod yr asesiad hwn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ganfod a gwrando ar eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau. Rhaid iddynt hefyd dybio mai chi yw'r person gorau i farnu eich llesiant eich hun ac i wybod beth sydd orau i chi. Rhaid i'r Awdurdod Lleol gydnabod pwysigrwydd hybu eich annibyniaeth.

Mae gennych hawl i wrthod asesiad o angen os ydych yn dymuno. Byddai gwneud hynny'n golygu na fyddai dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i asesu eich anghenion gofal a chymorth (neu anghenion cymorth yn achos gofalwyr). Fodd bynnag, os byddwch yn newid eich meddwl, rhaid i'r Awdurdod Lleol wedyn asesu eich anghenion (Adrannau 20 a 25 o'r Ddeddf).

Os na fydd unigolyn mewn sefyllfa i allu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain (nid oes ganddynt y galluogrwydd) ac yn gwrthod asesiad o angen, bydd dyletswydd o hyd ar yr Awdurdod Lleol i gynnal asesiad o angen os yw'n credu bod hynny 'er budd pennaf' yr unigolyn neu os oes gan yr unigolyn hwnnw unigolyn awdurdodedig a all weithredu ar ei ran.

Wrth gynnal asesiad o angen, gall yr Awdurdod Lleol ei gyfuno â'r asesiad o angen ar gyfer eich gofalwr (os oes gennych un), yn amodol ar eich cydsyniad chi a chydsyniad eich gofalwr. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i Awdurdod Lleol gael cydsyniad i gyfuno asesiad o angen os nad oes gan yr unigolyn alluogrwydd ac os byddai asesiad o angen ar y cyd er budd pennaf yr unigolyn (Adran 28 o'r Ddeddf).

Yn dilyn asesiad o angen, rhaid i'r Awdurdod Lleol benderfynu a oes angen gofal a chymorth, neu, yn achos gofalwr, a oes angen am gymorth (Adran 32 o'r Ddeddf).

Os bydd yr asesiad o angen yn dangos nad oes angen gofal a chymorth, yna gallwch gael eich cyfeirio at y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Fodd bynnag, os yw'r asesiad yn dangos bod angen gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr), rhaid i'r Awdurdod Lleol wedyn benderfynu a ydych chi'n ateb y Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol.

Am ragor o wybodaeth am y broses asesu, gweler Adran 19 (a 24 yn achos gofalwyr) o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 a Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion).

## Y Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol

O dan y Ddeddf newydd, bydd Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol yn cael eu defnyddio gan bob Awdurdod Lleol. I fodloni'r meini prawf, rhaid i anghenion yr unigolyn fod wedi'u hachosi gan salwch corfforol neu feddyliol, oed, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu amgylchiadau tebyg. Yn achos gofalwyr, rhaid i'r angen fod wedi'i achosi o ganlyniad i ddarparu gofal am naill ai oedolyn sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd neu blentyn anabl.

Rhaid i'r angen hefyd fod yn gysylltiedig ag un neu ragor o'r meysydd canlynol:

- Eich gallu i gyflawni tasgau i ofal amdanoch eich hun neu dasgau domestig;
- Eich gallu i gyfathrebu;

- Amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod;
- Cymryd rhan mewn gwaith, gweithgareddau addysg, dysgu neu hamdden;
- Cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu rai eraill pwysig
- Datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol a bod yn rhan o'r gymuned; a
- Chyflawni cyfrifoldebau gofal am blentyn.

(Er enghraifft, anhawster cael bath ar eich pen eich hun oherwydd iechyd corfforol gwael)

Hefyd, ni fyddwch yn gallu diwallu eich anghenion (e.e. cael bath ar eich pen eich hun), gyda gofal a chymorth eraill sy'n barod i ddarparu'r gofal a chymorth hwnnw, neu gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned. (Fodd bynnag, os bydd unigolyn yn gallu diwallu ei anghenion ar ei ben ei hun neu gyda chymorth pobl eraill ond bod gwneud hynny'n achosi poen, pryder neu drallod sylweddol; yn peryglu neu'n debygol o beryglu eu hiechyd neu eu diogelwch hwy neu unigolyn arall; neu, os yw'n cymryd llawer mwy o amser i'r unigolyn hwnnw nag y byddid yn ei ddisgwyl, yna dylai'r Awdurdod Lleol drin yr unigolyn hwnnw fel rhywun na all ddiwallu'r angen).

Yn olaf, i fodloni'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol, rhaid i chi fod yn annhebygol o allu cyflawni un neu ragor o'ch canlyniadau personol (a nodwyd yn ystod y broses asesu) oni bai bod yr Awdurdod Lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwr) i ddiwallu eich anghenion (neu'n galluogi'r angen hwnnw i gael ei ddiwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol).

Er enghraifft, efallai na fyddwch yn gallu bod yn gyfrifol am eich gofal personol eich hun, neu gall achosi poen sylweddol, ac nid oes neb ar gael i'ch helpu i wneud hyn, Heb ofal a chymorth gan yr Awdurdod Lleol ni fydddech yn gallu cyflawni eich canlyniad personol o fod yn hapus yn gorfforol ac yn emosiynol

Os yw'r unigolyn yn ateb y Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried beth ellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny.

Pan fydd unigolyn yn ateb y Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol (neu pan fydd Awdurdod Lleol o'r farn bod yn angen diwallu anghenion unigolyn i amddiffyn yr oedolyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod) rhaid i'r Awdurdod Lleol baratoi

Cynllun Gofal a Chymorth (neu Gynllun Gofal ar gyfer gofalwr) (Adran 54 o'r Ddeddf).

(Gall Awdurdod Lleol o hyd benderfynu diwallu anghenion unigolyn boed hwy'n ateb y Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol neu beidio er mwyn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod)

Am ragor o wybodaeth am gymhwysedd i gael gwasanaethau, gweler Adrannau 32 (a 33 ar gyfer gofalwyr) o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Tudalen 7.

